TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 16 Awst 2021

# Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

> *"Yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU i gyhoeddi gwerth unrhyw ddyfarniad contract cyhoeddus dros £5,000.*
>
> *A fyddech chi'n gallu cadarnhau gwerth y contract a ddyfarnwyd i H3 Group ym mis Ebrill 2020. A fyddech chi hefyd yn gallu cadarnhau hyd y contract. Cyfeirnod APR331541.*
>
> *A fyddech chi hefyd yn gallu cadarnhau gwerth unrhyw gontractau a ddyfarnwyd ar gyfer darparu offer diogelwch tân ar gyfer gorsafoedd a depos cerbydau rheilffyrdd?"*

**Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

Cwestiwn 1: Hyd a gwerth contract H3 Group
Gwerth blynyddol y contract yw £27,025 dros gyfnod o ddwy flynedd. Cyfanswm: £54,050.

Cwestiwn 2: Gwerth unrhyw gontractau a ddyfarnwyd ar gyfer darparu offer diogelwch tân mewn gorsafoedd a depos cerbydau rheilffyrdd
Mae cwmpas contract H3 Group yn cynnwys gorsafoedd a depos penodol fel a ganlyn:

1. Cynnal Asesiadau Risgiau Tân blynyddol ar gyfer pob adeilad a chyfleuster trafnidiaeth sydd â staff ar draws y rhwydwaith.
2. Mae angen cynnal archwiliadau blynyddol, gwaith cynnal a chadw ac, os oes angen, newid offer tân fel diffoddyddion tân, blancedi tân ac ati ym mhob un o'r adeiladau a asesir

Nodir gwerth ein contract gyda'r H3 Group uchod. Nid oes unrhyw gontractau eraill wedi'u dyfarnu ar gyfer darparu offer diogelwch tân mewn gorsafoedd a depos cerbydau rheilffyrdd.

Mae gwasanaethau cynnal a chadw diffoddyddion tân ar drenau'n cael eu darparu gan Chubb ar hyn o bryd yn Nhreganna, ond nid yw'r gwasanaeth hwn ar gontract.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".